* = Ffigwr is yn welliant

## Atodiad 1- Mesurau Perfformiad

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal – OED23** | Canran o Bobl Hyn a Phobl sydd a Anableddau Corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy. | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | 71% |
| **Gofal – Hol/001** | Pobl sy'n nodi y gallent wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt (holiadur) | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd |
| **Gofal - SCA/001** | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed. * | 1.55 | 1.05 | 2.38 | 2.6 |
| **Gofal - OED003** | Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal. | 54% | 45% | 55% | 71% |
| **Gofal - SCA/002a** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. * | 46<br>(4.6%) | 45<br>(4.5%) | 43<br>(4.3%) | 43<br>(4.3%) |
| **Gofal - SCA/002a** *LLEOL* | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. * | 79<br>(7.9%) | 78<br>(7.8%) | 73<br>(7.3%) | 74<br>(7.4%) |
| **Gofal - SCA/002b** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. * | 26<br>(2.6%) | 24<br>(2.4%) | 23<br>(2.3%) | 23<br>(2.3%) |
| **Gofal - SCA/002b** *LLEOL* | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac eithrio rhai sy'n hunan ariannu. * | 20<br>(2.0%) | 18<br>(1.8%) | 17<br>(1.7%) | 18<br>(1.8%) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal - SCA/019** | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli | 96% | 100% | 97% | 92% |
| **Gofal - SCA/019** *LLEOL* | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) | - | - | 99% | 96% |

**Gofal – OED23** – Mae gwaelodlin wedi ei sefydlu ar gyfer cyfanswm o 360 o achosion, ond hyd yn hyn dim ond 59 ohonynt sydd wedi cael eu hadolygu. Mae'r 71% dan sylw felly yn cynrychioli cyfanswm o 59 unigolyn sydd wedi gosod gwaelodoli gwreiddiol, ac yna wedi cael eu hadolygu gan weithiwr i drafod cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae 42 unigolyn profi gwelliant, 12 unigolyn heb brofi newid ers yr adolygiad blaenorol, a 5 unigolyn wedi gweld dirywiad.

**Gofal - SCA/001 -** Pe byddai'r perfformiad yn parhau'r un fath am weddill y flwyddyn rhagwelir y byddwn yn perfformio dipyn is na chyfartaledd Cymru - amcan perfformiad o 6.0 o gymharu â chanolrif Cymru (4.9) yn 15/16. Cyfradd o 2.6 ydi'r gorau y gellir anelu ato fel ffigwr terfynol a byddai hynny 'n ddibynnol ar beidio cael unrhyw achos arall o oediad gweddill y flwyddyn ariannol.

**Gofal - SCA/002a** - Nid yw'r mesur cenedlaethol hwn yn cyfrifo'r bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau mwy ataliol eu natur e.e. Teleofal a Galluogi. Mae'r mesur yn cynnwys yn unig y gwasanaethau traddodiadol e.e. Gofal Cartref. Er mwyn cael darlun llawn o'r bobl hynny sy'n cael cefnogaeth yn eu cartref, mae fersiwn lleol o'r mesur wedi cael ei greu (**SCA/002a** *LLEOL*).

**Gofal - SCA/002b** - Mae'r mesur cenedlaethol hwn yn cyfrifo'r 'hunan arianwyr' sydd yn byw yng Nghartrefi Preswyl y Sir. Mae gan Wynedd nifer o gartrefi mewnol o gymharu â gweddill Cymru, ac mae cyfri 'hunan arianwyr' yn gallu drysu'r sefyllfa wrth gymharu'n genedlaethol. Mae fersiwn lleol wedi ei greu ar gyfer eithrio'r 'hunan arianwyr' (**SCA/002b** *LLEOL*).

**Gofal - SCA/019** - Nid yw'r mesur cenedlaethol hwn yn eithrio'r unigolion sydd wedi gwrthod ymyrraeth. Mae fersiwn lleol wedi ei greu sy'n eithrio'r unigolyn sydd wedi gwrthod ymyrraeth (**SCA/019** *LLEOL*) a thybir fod hyn yn rhoi gwell darlun o'r gwir sefyllfa.

**Gofal - SCA/019 (LLEOL)** – Roedd dau achos wedi ei gofnodi ar y system fel eu bod heb gael eu rheoli ond, fel sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad, mae cadarnhad bellach fod diffyg wedi bod o ran cofnodi yn gywir. O fod yn eithrio'r ddau achos dan sylw sydd angen ei gwirio, byddai perfformiad y mesur yn 100%.